## CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R ADNODD

Cynlluniwyd yr adnodd hwn i gael ei ddefnyddio fel **adnodd ystafell ddosbarth** gan yr athro ac fel **adnodd astudio unigol** gan ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau mewn astudio hanes Safon Uwch. Mae'n darparu canllawiau manwl ar ofynion Uned 1 ynghyd â chanllawiau astudio ac asesu pob un o'r wyth astudiaeth o gyfnod.

Argymhellir bod athrawon yn defnyddio'u barn broffesiynol wrth ddefnyddio'r gweithgareddau ble a phryd maent yn ystyried eu bod yn briodol i ddatblygiad y cwrs. Anogir athrawon i addasu a diwygio cyflwyniad y canllawiau a'r gweithgareddau fel yr ystyrir yn briodol ganddynt – er enghraifft addasu'r iaith a ddefnyddir neu'r dull o gyflwyno.

## CYFLWYNIAD – GOFYNION AA1

Mae asesiad yr Astudiaeth o Gyfnod yn **llwyr seiliedig ar Amcan Asesu 1.**

*Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd.*

Mae hyn yn asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r defnydd ffeithiol sy'n gysylltiedig â'r cyfnod ynghyd â'i gymhwysiad at **gysyniadau hanesyddol** fel achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd. Dylai'r dysgwyr ganolbwyntio ar archwilio'r meysydd cysyniadol hynny ar sail eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r opsiwn Astudiaeth o Gyfnod perthnasol fel y'i disgrifir yn y fanyleb ar gyfer Hanes Safon Uwch.

Mae Amcan Asesu 1 hefyd yn gofyn i ddysgwyr **ddangos, trefnu a chyfathrebu** eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn traethawd sydd wedi ei ysgrifennu'n dda. Yn ymarferol golyga hyn bod rhaid i ddysgwyr ddewis a threfnu defnydd ffeithiol perthnasol a phriodol i ategu'r ddadl a wneir yn eu hateb yn hytrach na dim ond galw i gof cymaint o wybodaeth ag y gallant: mae hanes ar Safon UG ac Uwch yn fwy na dim ond prawf cof.

© Hawlfraint y Goron 2018

Yn Uned 1 mae'n rhaid i ddysgwyr hefyd ddangos bod ganddynt y sgiliau i ddadansoddi ac i werthuso'r nodweddion a'r priodweddau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cyfnod a astudir ac i ddod i farn wedi'i chyfiawnhau mewn perthynas â'r rhain. Mae hyn yn golygu bod angen:

- datblygu'r gallu i werthuso arwyddocâd / pwysigrwydd y datblygiadau a astudir yn hytrach na dim ond galw gwybodaeth amdanynt i gof;
- y gallu i ddod i farn ddilys, wedi'i chadarnhau, ar y cysyniad allweddol sydd wrth wraidd y cwestiwn a osodwyd.

Bydd yr holl gwestiynau a osodir yn cynnwys, ble bo'n briodol, term i annog gwerthuso a dod i farn, fel asesu cyfrifoldeb, effeithiolrwydd neu lwyddiant datblygiadau.

## CYMORTH YCHWANEGOL AR GYFER UNED 1

Gellir gweld canllawiau ychwanegol ar ofynion Uned 1 ar wefan CBAC. Mae copi o'r Fanyleb ar gael yn http://www.cbac.co.uk/qualifications/history/r-history-gce-asa-from-2015/wjec-gce-history-spec-from-2015-cymraeg.pdf?language_id=2

Mae Canllaw Athrawon i'r Unedau ar gael hefyd yn http://www.cbac.co.uk/qualifications/history/r-history-gce-asa-from-2015/TAG%20Hanes%20Canllawiau%20Athrawon.pdf?language_id=2

Gall athrawon – a dysgwyr – hefyd gyrchu enghreifftiau ychwanegol o draethodau yn Uned 1 ar wefan CBAC yn http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/cpd/s16/11_17_11_16/TAG%20Hanes%20Uned%201%20Pob%20Opsiwn_sec.pdf

© Hawlfraint y Goron 2018

## GOFYNION UNED 1

Ym mhob opsiwn Astudiaeth o Gyfnod, mae'n rhaid i'r dysgwyr astudio **amrediad cronolegol o tua 100 mlynedd,** yn edrych ar gysyniadau allweddol priodol fel newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac yn ymdrin ag amrywiaeth o safbwyntiau hanesyddol (e.e. datblygiadau cymdeithasol neu wleidyddol). **Mae'n hanfodol bod y fanyleb gyfan yn cael ei haddysgu** gan y bydd y cwestiynau'n tynnu ar y cynnwys a'r safbwyntiau ar draws yr holl ystod dyddiadau a bennwyd.

**Argymhellir yn gryf bod y canolfannau a'r dysgwyr yn ystyried y materion yn y fanyleb yn eu cyfanrwydd ac yn sicrhau bod digon o ymdriniaeth gronolegol i alluogi dealltwriaeth o bob un o'r safbwyntiau awgrymedig**.

Asesir Uned 1 drwy **arholiad sy'n para 1 awr a 30 munud** ac sy'n ymwneud ag ateb dau gwestiwn traethawd penagored a ddyluniwyd i alluogi dysgwyr i ddangos eu dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r sgiliau hanesyddol fel y cawsant eu pennu yn Amcan Asesu 1. Dylai'r dysgwyr neilltuo tua 45 munud ar gyfer pob cwestiwn, un o Adran A a'r llall o Adran B.

Mae'r arholiad Astudiaeth o Gyfnod yn gofyn i ddysgwyr ateb dau gwestiwn ac mae'r ddau yn **gofyn am ddadl a dod i farn wedi'i chyfiawnhau.** Bydd y cwestiynau a osodir bob blwyddyn yn amrywio ond byddant yn canolbwyntio ar gynnwys penodedig ac yn seiliedig ar ddatblygiadau dros ran fyrrach a hirach o'r cyfnod a astudir yn Adran A ac Adran B.

Bydd **cwestiynau Adran A** yn ymdrin â chyfnod cronolegol byrrach na thraethodau Adran B, fel arfer cyfnod o tua 15 i 40 mlynedd. Bydd **cwestiynau Adran B** fel arfer yn ymdrin â chyfnod o rhwng 40 a 70 mlynedd (ond gallai fod yn hirach weithiau i gynnwys datblygiadau penodol).

**Dylai'r safon a ddisgwylir yn y traethodau hyn gyfateb i safon y traethawd Safon Uwch traddodiadol** a dylai'r dysgwyr geisio dadlau a thrafod y materion yn hytrach na dim ond galw i gof a disgrifio digwyddiadau, nodweddion neu briodweddau. Mewn ymateb i gwestiwn traethawd penagored, disgwylir y bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar y cysyniad hanesyddol allweddol yn y cwestiwn, yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion yn y cwestiwn, gwerthuso'u pwysigrwydd, a rhoi barn wedi'i chadarnhau ac wedi ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd.

Yn Uned 1 mae'r asesiad yn disgwyl y bydd dysgwyr yn gallu strwythuro'u hymateb ar ffurf traethawd penagored. **Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r dysgwyr ganolbwyntio'r ddadl ar y cysyniad hanesyddol allweddol ac yn aml mae hwnnw wedi ei gynnwys mewn term gwerthusol.** Mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu traethodau sy'n rhestru cyfres o ddatblygiadau yn y paragraff agoriadol, yn cynnwys paragraff ar bob un o'r datblygiadau hynny, ac yna'n rhoi gosodiad beirniadol syml – a welir weithiau ar ddiwedd pob paragraff – neu yn y paragraff olaf. Mae'r ymagwedd honno at ysgrifennu traethawd yn fformiwläig ac nid yw'n cael ei gwobrwyo'n dda yn Hanes Safon Uwch.

## CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Dylai'r athrawon nodi y gellid defnyddio'r gweithgaredd hwn i un ai gyflwyno

- natur a gofynion y cysyniadau sy'n tanategu'r uned,
- neu i ganolbwyntio ar sut mae'r cysyniadau'n perthnasu i'r fanyleb,
- neu fel ymarfer adolygu ar ddiwedd y cwrs,
- neu i ddarparu trosolwg ar y testunau a'r cysyniadau.

## GWEITHGAREDD 1: MYND I'R AFAEL Â CHYSYNIADAU YN UNED 1

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r rhan fwyaf o astudio Hanes UG a Safon Uwch. Dangosir y rhain yn y tabl ar dudalen 5, gyda disgrifiad o beth mae angen i'r dysgwyr ei ddangos yn y golofn ganol. **Sylwer y bydd pob traethawd gosod yn gofyn fel arfer am ddealltwriaeth o fwy nag un maes cysyniadau.**

Yn y golofn olaf ceisiwch roi enghreifftiau o bob un o'r cysyniadau hyn o'r Astudiaeth o Gyfnod rydych wedi ei hastudio. Ceisiwch gynnwys ddwy enghraifft o leiaf o bob cysyniad o'ch astudiaeth o gyfnod – mae enghraifft wedi ei rhoi i chi o'r opsiwn sy'n ymdrin â **Gwleidyddiaeth, Pobl a Chynnydd yng Nghymru a Lloegr, tua 1880-1980**.

© Hawlfraint y Goron 2018

| Cysyniad | Beth mae'n ei olygu | Enghreifftiau o'r cysyniad |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | Mae'r cysyniad hwn yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiol ffactorau sy'n arwain i newid mewn hanes (y ffactorau achosol) a'r gallu i ddeall canlyniadau'r fath newidiadau – sydd weithiau'n anrhagweladwy ac yn anfwriadol. Rhaid bod y dysgwyr yn gallu dangos dealltwriaeth o achosion a chanlyniadau newid yn ystod cyfnod penodedig o amser. | *1. Achosion y Dirwasgiad a'i effaith ar fywyd pobl oedd yn ddi-waith.*<br>*2.*<br>*3.* |
| Newid a pharhad | Mae'r cysyniad hwn yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o faint y newid a hefyd o gyflymder newid yn ystod cyfnod penodedig o amser. Er gwaethaf y pwyslais ar newid, mae'n bosibl bod yna hefyd radd helaeth o barhad. | *1. Rôl a statws menywod rhwng 1880 ac 1918.*<br>*2.*<br>*3.* |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | Mae'r cysyniad hwn yn gofyn i'r dysgwyr allu dangos dealltwriaeth o'r sefyllfa ar ddechrau'r cyfnod ac erbyn diwedd y cyfnod. Dylai'r dysgwyr hefyd fod yn gallu cymharu profiadau gwahanol grwpiau, datblygiadau ac mewn cymdeithas ynghyd ag mewn gwahanol wledydd. Dylai'r dysgwyr hefyd fod yn gallu cymharu effeithiolrwydd neu lwyddiant amrywiol lywodraethau, diwygiadau ac arweinwyr ble bo'n briodol. | *1. Effeithiolrwydd llywodraethau wrth ddelio â diwygio cymdeithasol rhwng 1906 ac 1951.*<br>*2.*<br>*3.* |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | Mae'r cysyniad hwn yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o ddigwyddiadau, nodweddion a phriodweddau'r cyfnod a'r dylanwadau ar y datblygiadau hynny. Dylai'r dysgwyr fod yn gallu dadansoddi a gwerthuso i ba raddau roedd y fath ddylanwadau'n arwyddocaol / bwysig dros y cyfnod penodedig o amser. | *1. Effaith rhyfel, 1890-1939.*<br>*2.*<br>*3.* |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 2: DEALL Y CYNLLUN MARCIO

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Dylai'r athrawon nodi bod y cynlluniau marcio ar gyfer y ddau gwestiwn yn Uned 1 yn cael eu cyflwyno mewn chwe band sy'n gofyn am lefel gynyddol o ymdrech ac mae'r nodweddion cyffredinol ar gyfer pob band wedi eu diffinio'n glir mewn llythrennau italig isod. Mae'r rhinweddau a ddylai fod yn y traethawd yn rhai holistaidd gan fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i bob agwedd, er bod y traethodau fel arfer yn dangos y nodweddion cyffredinol a ddangosir isod ar bob band.

Dylai'r athrawon nodi y gellid defnyddio'r gweithgaredd hwn i gyflwyno natur a gofynion ysgrifennu traethawd naill ai fel gweithgaredd dosbarth cyfan neu drwy waith pâr neu grŵp. Fodd bynnag, anogir athrawon i wneud hyn gyda thraethodau cyfan yn hytrach na fesul paragraff.

Gan ddefnyddio'r grid isod **trafodwch a graddiwch** y tair prif nodwedd y mae'r Arholwyr yn gofyn amdanynt i gyrraedd pob band (mae'r ddau fand isaf wedi eu cwblhau ar eich cyfer):

| | |
|---|---|
| **Band 6** | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio'n llawn ar yr union gysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, yn ymdrin â'r cyfnod gosod cyfan, gan ddadlau'n glir ac yn argyhoeddiadol ar y prif ddatblygiadau a dod i farn wedi'i chyfiawnhau mewn traethawd eglur a chwbl gydlynol.* |
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |
| **Band 5** | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadlau'r cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, gan ymdrin â'r cyfnod gosod cyfan neu'r rhan fwyaf ohono. Mae'r ymateb yn ystyried y rhan fwyaf o'r prif ddatblygiadau, yn rhoi dadl argyhoeddiadol ac yn gallu dod i farn gytbwys, briodol ac wedi'i chefnogi.* |
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |

© Hawlfraint y Goron 2018

| | |
|---|---|
| **Band 4** | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio rhywfaint ar y cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, gan ymdrin â rhywfaint neu'r cyfan o'r cyfnod gosod, ynghyd â rhywfaint o ddadlau am rai o'r datblygiadau, a barn gytbwys, wedi'i chefnogi, ar y cysyniad allweddol mewn traethawd strwythuredig. Gall fod rhywfaint o grwydro yma ac acw ond dylai fod ôl cychwyn dadl ystyrlon yn yr ymateb.* |
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |
| **Band 3** | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio rhywfaint ar y materion allweddol a osodwyd gan ddechrau trafod y rhain er mwyn dod i farn ar y cwestiwn gosod. Fel arfer, mae'r ymateb wedi'i gyfyngu i drafodaeth 'o blaid ac yn erbyn' gyda pheth tystiolaeth o restru a dadrestru nodiadau. Gall fod crwydro sylweddol a gall fod naws fecanyddol i'r ymateb hefyd.* |
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |
| **Band 2** | *Mae'r ymateb yn seiliedig i raddau helaeth ar y maes pwnc ond mae'n ddisgrifiadol.* |
| **1** | *Mae ond yn disgrifio beth ddigwyddodd.* |
| **2** | *Ymdriniaeth wan o'r cyfnod.* |
| **Band 1** | *Ymateb cyfyngedig iawn yw hwn, heb ei ddatblygu, yn fyr iawn neu'n amherthnasol i raddau helaeth.* |
| **1** | *Heb ateb y cwestiwn o gwbl.* |
| **2** | *Heb ei ddatblygu.* |

## GWEITHGAREDD 3: OSGOI'R TRAETHAWD WEDI PARATOI

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae'n amlwg bod nifer o ganolfannau'n darparu fframiau ysgrifennu ac weithiau hyd yn oed traethodau wedi'u paratoi i'r dysgwyr. Gall y fath ddyfeisiau fod yn ddefnyddiol ond rhaid nodi bod y mathau hyn o ymatebion yn gyfyngedig i Fand 3 a Band 4 am nad ydynt yn dangos nodweddion traethodau yn y bandiau uchel. Mae'r gweithgaredd hwn yn ceisio annog dysgwyr i fyfyrio ar y nodweddion hyn. Dylai'r athrawon nodi y gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn mewn ymarferion hunanasesu neu gan grwpiau o gyfoedion neu wrth adolygu gwaith dysgwyr unigol. Gellir ei gysylltu â Gweithgaredd 5.

Er mwyn asesu ansawdd traethawd ar gyfer Uned 1, dyma'r meysydd allweddol i'w trafod:

- ydy'r rhagymadrodd yn briodol i'r cwestiwn gosod?
- ydy'r ystod dyddiadau wedi'i thrin yn ddigonol?
- a roddir ystyriaeth i amrywiaeth o ddatblygiadau?
- a oes dadl ar y cysyniadau allweddol a osodwyd?
- a oes ateb i'r cwestiwn penodol a osodwyd?
- ydy'r casgliad yn cael ei gyfiawnhau gan y ddadl yn y traethawd?

**Darllenwch yr ymateb ar dudalen 9 a thrafodwch y canlynol:**

- rhinweddau'r ymateb
- cyfyngiadau'r ymateb
- sut gellir ei wella er mwyn cwrdd â gofynion y bandiau uwch yn y cynllun marcio (Gweler Gweithgaredd 2).

© Hawlfraint y Goron 2018

Daw'r traethawd hwn o arholiad Uned 1 2017 ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 4. Y cwestiwn a osodwyd oedd:

**I ba raddau roedd effaith rhyfel yn bennaf gyfrifol am y newid mewn cymdeithas, 1880-1939?**

*Mae effaith y rhyfeloedd drwy Brydain rhwng 1880 ac 1939 bob un wedi newid cymdeithas. Ond mae datblygiadau eraill yn ogystal â rhyfel yn gwneud hyn hefyd. Y rhyfel cyntaf ym Mhrydain a gafodd effaith cymharol bwysig oedd Rhyfel y Boar. Ystyrir mai hwn oedd un o'r rhyfeloedd cyntaf i gael effaith ar fywydau pobl. Penderfynodd Prydain fynd i ryfel yn Ne Affrica yn erbyn ffermwyr. Ystyriwyd y byddai hwn yn rhyfel hawdd i Brydain ond dyfarnwyd bod 1 o bob 4 milwr Prydeinig yn anffit gan fethu'r profion i ymladd. Ond roedd gan Brydain ddynion i ymladd, i fynd draw yno a hawlio'r rhan honno o Dde Affrica. Fodd bynnag, ni allai Prydain ymladd ac ennill yn erbyn byddin o ffermwyr oedd heb unrhyw arfau addas. Dangosodd hyn fod Prydain yn wan ac yn methu â chynhyrchu dynion ffit a phrofiadol. Canlyniad hyn oedd aros 4 blynedd i ymladd dros adnoddau nad oedd eu hangen a gwastraffu arian. Ond gellir gweld bod y rhyfel hwn wedi dod â newid i Brydain fel y mae'r rhan fwyaf o ryfeloedd yn ei wneud. Dangosodd hyn bod angen newid safon y maeth yr oedd dynion ym Mhrydain yn ei gael a dangosodd i gymdeithas gymaint oedd angen newid ym Mhrydain.*

*Un o'r newidiadau mwy arwyddocaol oedd y diwygiadau Rhyddfrydol a fyddai'n newid ac yn siapio'r gymdeithas gyfan. Un diwygiad pwysig a gyflwynwyd oedd y ddeddf i ddarparu prydau ysgol am ddim. Pwrpas hon oedd rhoi prydau ysgol am ddim i blant. Ei nod oedd helpu plant y tlodion nad oedd yn cael y prydau hyn yn eu cartref. Gellid dweud bod yr hyn ddigwyddodd yn Rhyfel y Boar yn rheswm pam roedd angen gweld newid yn neietau plant gan i'r rhan fwyaf o'r milwyr fethu'r prawf maeth.*
*Deddf arall oedd Deddf Yswiriant Gwladol Rhan 1 1911 – roedd hon i fod i ddigolledu gweithwyr os byddent yn cael damwain neu'n sâl. Fodd bynnag, roedd rhaid iddynt dalu am hyn a dyma'r rheswm pam na wnaeth y rhan fwyaf. Ond dyma'r tro cyntaf i bobl weld y byddai talu i mewn i'r system yn rhoi arian iddynt pan fyddent i ffwrdd o'r gwaith. Pwrpas Deddf Yswiriant Gwladol Rhan 2 oedd rhoi gofal iechyd am ddim, ond roedd hwn ar gael i'r gweithwyr a dalodd amdano yn unig, ac nid i'w teuluoedd. Fodd bynnag hwn oedd yr arwydd cyntaf o ofal iechyd a welwyd ym Mhrydain. Gwelwyd yr holl Ddeddfau hyn fel datblygiadau allweddol i newid cymdeithas ar wahân i'r newidiadau hynny a ddigwyddodd ar ôl rhyfel neu yn ystod rhyfel. Gwnaed y diwygiadau i wella bywydau pobl ym Mhrydain. Mewn gwirionedd nid oedd y diwygiadau wedi cael eu hystyried cyn hyn.*

*Ystyriwyd bod y Rhyfel Byd Cyntaf yn newid arall mewn cymdeithas. Y newid cyntaf oedd consgripsiwn. Roedd y 'Bataliynau Cyfeillion' yn ffordd o gonsgriptio dynion drwy wirfoddoli. Llwyddodd i ffurfio 300 a chasglu 250,000 o ddynion cyn y rhyfel. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigon o ddynion ac ni chafodd y dynion wybod pryd fyddai'r rhyfel yn dod i ben na chwaith y bydden nhw'n marw gyda'i gilydd ynghyd â gwasanaethu gyda'i gilydd. Ond oherwydd bod y nifer hwn o bobl yn annigonol ar gyfer y rhyfel, cyflwynwyd dwy ddeddf consgripsiwn, un ym mis Ionawr 1914 ac un ym mis Mawrth 1914 gan gasglu niferoedd mawr o bobl. Byddai'r ddwy ddeddf hyn yn newid bywydau dynion gan eu gorfodi i gofrestru ar gyfer y fyddin gan fod eu hangen. Newid arall mewn cymdeithas oedd gwaith mewn ffatrïoedd arfau rhyfel. Roedd y faith fod dynion yn ymuno â'r fyddin*

*yn golygu fod llai ar gael i weithio yn niwydiannau Prydain eu yn a dywedwyd wrth fenywod am fynd allan i weithio. Roedd hyn yn beth da oherwydd o'r diwedd roedd menywod yn gweithio'r tu allan i'w cartrefi, ond cyn gynted ag y daeth y rhyfel i ben byddent yn mynd nôl i'w lle yn eu cartrefi. Ond roedd hwn yn gam anferth o ran darparu gwaith i'r menywod a newidiodd y safbwynt cymdeithasol hefyd. Gan na wnaeth y diwygiadau Rhyddfrydol a Rhyfel y Boar newid bywydau, cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith anferth ar bawb ym Mhrydain oherwydd roedd yn rhyfel ble roedd rhaid i'r rhan fwyaf o bobl ymuno ac ymladd gyda'i gilydd.*

*Gellir gweld y Llywodraeth Genedlaethol hefyd fel newid anferth mewn cymdeithas. Cyflwynodd y Llywodraeth Genedlaethol Wladoli. Roedd hyn yn beth da i'r llywodraeth oherwydd roedd yr holl ddiwydiannau yn cael eu rheoli a chafodd nifer o swyddi eu creu i gefnogi diweithdra. Ond nid oedd perchenogion diwydiannau yn cytuno â'r llywodraeth gan fod yn rhaid dirwyo'u cwmnïau fel y byddai'r llywodraeth yn ennill arian. Dan y Llywodraeth Genedlaethol, cyflwynwyd yr isafswm cyflog i ddarparu cyflog sefydlog i'r gweithwyr. Roedd hyn yn llwyddiant mawr i'r gweithwyr gan na allai eu cyflog gael ei ostwng ond nid oedd perchenogion diwydiannau'n hapus am eu bod yn colli ardrethi ac arian. Uwchlaw pob newid a wnaed yn y cyfnod, y Rhyfel Byd Cyntaf achosodd y newid mwyaf mewn cymdeithas gan fod arian wedi cael ei golli ond gostyngodd diweithdra ac roedd gan nifer fawr o bobl swyddi. Fodd bynnag roedd gweithio yn y rhyfel wedi gostwng cyflogau yn wahanol i'r newidiadau a wnaed gan y Llywodraeth Genedlaethol i helpu.*

*I gloi, y Rhyfel Byd Cyntaf gafodd yr effaith fwyaf ar y newid i gymdeithas gan i'r gost ddynol godi a chollwyd cymaint o'r economi ond cafodd bywydau pobl eu diwygio mewn ffyrdd da ac mewn ffyrdd drwg. Roedd deietau pobl yn well gan fod dogni wedi helpu i ffurfio deiet ysgrifenedig. Ond yn wahanol i'r diwygiadau Rhyddfrydol, helpodd i siapio bywydau pobl mewn ffyrdd da sydd yn dal i fod yn eu lle heddiw. Wrth edrych ar y cyfan, cafodd Prydain ei newid yn bendant ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.*

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 4: SUT I GYNLLUNIO AC YSGRIFENNU TRAETHODAU BAND UCHEL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Dylai'r athrawon nodi mai nod y gweithgaredd hwn yw cefnogi dysgwyr i gynhyrchu traethodau o ansawdd gwell. Dylai'r athrawon nodi mai **dim ond UN ymagwedd yw hon ac nid yw'n ddiffiniol.** Er mwyn cynhyrchu traethawd penagored sy'n cael marciau da mae'n rhaid i'r dysgwyr ymglymu wrth yr union gysyniadau allweddol yn y cwestiwn a osodwyd, canolbwyntio ar ddadansoddi'r materion a gwerthuso'u pwysigrwydd cyn dod i farn wedi'i chyfiawnhau sy'n cwmpasu'r cyfnod cronolegol a osodwyd. Mae'r ymatebion gwell yn gallu dangos y gallu i wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau o'r cyfnod a astudir. Bydd yr ymatebion gwell yn ymgysylltu'n holistaidd gyda phob un neu lawer o'r cysyniadau newid allweddol, parhad, achos, canlyniad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd y gofynnir amdanynt yn Amcan Asesu 1.

Isod rhoddir gweithgaredd i drafod sut mae cynllunio ac ysgrifennu traethawd penagored. Mae i'r ymagwedd hon bedwar cam. Dilynwch y canllaw cam wrth gam isod a'i gymhwyso at unrhyw gwestiwn Uned 1. Dyma enghraifft:

**I ba raddau roedd effaith rhyfel yn bennaf gyfrifol am newidiadau mewn cymdeithas, 1880-1939?**

| **Cam Un: Cwestiynu'r cwestiwn** |
|---|
| Mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn deall gofynion y cwestiwn, felly<br>• nodwch y math o gwestiwn – y bôn<br>• nodwch y cysyniadau allweddol a osodwyd yn y cwestiwn<br>• nodwch yr ystod dyddiadau i'w hystyried<br>• nodwch a dadansoddwch yr ystod o ddatblygiadau y mae angen i chi eu trafod. |
| **Cam Dau: Ateb yn gryno** |
| • Mae angen i chi benderfynu beth rydych yn bwriadu ei ddweud cyn i chi ddechrau ysgrifennu.<br>• Mae unrhyw farn sydd wedi'i chyfiawnhau yn dderbyniol ond rhaid iddi godi o ddadl resymegol – dylech osgoi rhoi naratif ar beth ddigwyddodd.<br>• Yn gyffredinol eich Ateb yn Gryno fydd eich casgliad. |

| Cam Tri: Cynllunio a strwythuro eich traethawd |
|---|
| • Mae angen rhoi barn wedi'i chadarnhau ym mhob traethawd.<br>• Bydd angen i chi gynllunio eich cyflwyniad i fod yn fyr ac yn ddiddorol – diffinio'r termau yn y cwestiwn neu osod y cyd-destun hanesyddol ar ddechrau'r cyfnod.<br>• Dylai hynny gael ei ddilyn gan gyfres o ddadleuon ar y materion a'r datblygiadau a nodwyd gennych.<br>• Nid oes nifer penodol o faterion i'w hystyried er fod llawer o ddysgwyr yn gallu ystyried ystod o ddatblygiadau yn yr amser a ganiateir.<br>• Yn olaf gallwch ychwanegu eich casgliad – yr ateb yn gryno uchod. |
| **Cam Pedwar: Ategu eich ateb** |
| • Bydd angen i chi ddewis a defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ddangos ac ategu eich dealltwriaeth o'r materion. Dyna beth a olygwn wrth "barn wedi'i chadarnhau".<br>• Y nod yw defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i ategu eich ateb mewn modd perthnasol yn hytrach na dysgu popeth ar y cof ac ysgrifennu hynny i lawr. |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 5: RHESTR WIRIO YSGRIFENNU TRAETHAWD

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i asesu eich traethawd drwy [hunan asesu / asesu gan gymheiriaid / asesu gan grŵp].

| A ydych chi wedi? | YDW | NAC YDW |
|---|---|---|
| Cwestiynu'r cwestiwn | | |
| Nodi'r cysyniadau allweddol | | |
| Nodi'r ystod dyddiadau i'w chwmpasu | | |
| Nodi a dadansoddi'r prif fater | | |
| Dadansoddi materion arwyddocaol eraill i'w trafod | | |
| Gwerthuso pwysigrwydd y materion | | |
| Ystyried ateb yn gryno | | |
| Creu cynllun byr ar gyfer eich traethawd | | |
| Ysgrifennu rhagymadrodd byr ond diddorol | | |
| Dadlau'r cysyniadau allweddol a'r materion yn y cyfnod a osodwyd | | |
| Darparu cefnogaeth ffeithiol briodol | | |
| Ysgrifennu casgliad gan roi eich barn | | |
| Darllen drwyddo a chywiro unrhyw gamgymeriadau | | |

| **Wrth edrych ar nodweddion y cynllun marcio, y lleoliad gorau i'r traethawd hwn yw:** | **BAND** |
|---|---|
| | |

| **A oes angen gwella ar unrhyw rai o'r agweddau ar ysgrifennu eich traethawd?** |
|---|
| |
| **Awgrymwch sut fyddwch yn cyflawni hyn – a gwiriwch fod hyn wedi ei wneud yn eich ymdrech nesaf.** |
| |

© Hawlfraint y Goron 2018

Isod mae grid yn dangos **y nodweddion cyffredinol** ar gyfer pob band asesu ar gyfer traethodau Uned 1

Mae'r grid hefyd yn dangos sut gall y nodweddion cyffredinol hyn gael eu torri i lawr yn **rhinweddau penodol** a pha farciau y gellir eu neilltuo i'r atebion sy'n dangos y rhinweddau hyn.

Gall hyn fod yn ddefnyddiol er mwyn deall sut mae penderfyniadau asesu yn cael eu gwneud.

H = Uchel, S = Safonol, C = Nodweddion

| | | |
|---|---|---|
| **Band 6 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio'n llawn ar yr union gysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, yn ymdrin â'r cyfnod gosod cyfan, gan ddadlau'n glir ac yn argyhoeddiadol am y prif ddatblygiadau a dod i farn wedi'i chyfiawnhau mewn traethawd eglur a chwbl gydlynol.* |
| **B6U** | **30** | Mae'r ymateb yn ymgysylltu ag union yr un cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod gan ymdrin â'r cyfnod gosod i gyd. Mae'n trafod yr ystod llawnach o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater perthnasol. Mae'r ymateb yn cynnig traethawd eglur sy'n dadansoddi ac yn gwerthuso'n llawn gyda barn argyhoeddiadol ac wedi'i chadarnhau'n llawn. |
| **B6S** | **27** | Mae'r ymateb yn cysylltu â'r cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod gan ymdrin â bron y cyfnod gosod i gyd. Mae'n trafod ystod llawnach o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater perthnasol. Mae'r ymateb yn cynnig traethawd eglur sy'n dadansoddi ac yn gwerthuso'n llawn gyda barn argyhoeddiadol ac wedi'i phrofi'n llawn. |
| **Band 5 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadlau'r cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, gan ymdrin â'r cyfnod gosod cyfan neu'r rhan fwyaf ohono. Mae'r ymateb yn ystyried y rhan fwyaf o'r prif ddatblygiadau, yn rhoi dadl argyhoeddiadol ac yn gallu dod i farn gytbwys, briodol ac wedi'i chefnogi.* |
| **B5U** | **25** | Mae'r ymateb yn ymgysylltu â'r cysyniad allweddol, ac yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r cyfnod gosod yn y cwestiwn a osodwyd. Mae'n trafod amrywiaeth o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater perthnasol. Mae'r ymateb yn darparu traethawd gwerthusol, sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, gyda chasgliad cytbwys a phriodol. |
| **B5S** | **23** | Mae'r ymateb yn ymgysylltu â'r cysyniad allweddol, ac yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r cyfnod gosod yn y cwestiwn a osodwyd. Mae'n trafod amrywiaeth o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater perthnasol. Mae'r ymateb yn darparu traethawd gwerthusol, sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, gyda barn briodol. |
| **B5N** | **21** | Mae'r ymateb yn dechrau dangos rhai o nodweddion Band 5. [Gellir defnyddio hwn ar gyfer ymatebion cysyniadol da nad ydynt yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r cyfnod, yn enwedig yn Adran B.]. |

| | | |
|---|---|---|
| **Band 4 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio rhywfaint ar y cysyniad allweddol yn y cwestiwn gosod, gan ymdrin â rhywfaint neu'r cyfan o'r cyfnod gosod, ynghyd â rhywfaint o ddadlau am rai o'r datblygiadau, a barn gytbwys, wedi'i chefnogi, am y cysyniad allweddol mewn traethawd strwythuredig. Gall fod rhywfaint o grwydro yma ac acw ond dylai fod ôl cychwyn dadl ystyrlon yn yr ymateb.* |
| **B4U** | **20** | Mae'r ymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar ymdrin â'r rhan fwyaf o'r cyfnod gosod a bydd trafodaeth ystyrlon o sut mae'r prif nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â'r thema wedi cael effaith ar y cysyniad allweddol. Bydd barn gytbwys ond efallai bydd rhywfaint o grwydro yn amlwg. |
| **B4S** | **18** | Mae'r ymateb yn dechrau trafod y cysyniad allweddol gan drafod y rhan fwyaf o'r cyfnod yn y cwestiwn a osodwyd. Bydd ymgais i amlinellu'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater. Efallai bydd cyfres o farnau bach ac ychydig o grwydro. |
| **Band 3 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn canolbwyntio rhywfaint ar y materion allweddol a osodwyd gan ddechrau trafod y rhain er mwyn dod i farn ar y cwestiwn gosod. Fel arfer, mae'r ymateb wedi'i gyfyngu i drafodaeth 'o blaid ac yn erbyn' gyda pheth tystiolaeth o restru a dadrestru nodiadau. Gall fod crwydro sylweddol a gall fod naws fecanyddol i'r ymateb hefyd.* |
| **B3U** | **15** | Mae'r ymateb yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio cyfres strwythuredig iawn o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater. Bydd yr ymateb yn cynnig barn â rhywfaint o gefnogaeth, yn aml gan ystyried ffactorau o blaid ac yn erbyn. Bydd rhywfaint o ymdriniaeth afreolaidd o'r cyfnod. |
| **B3S** | **13** | Mae'r ymateb yn tueddu i fod ar ffurf rhestru cyffredinol o nodweddion a phriodweddau sy'n gysylltiedig â'r mater. |
| **Band 2 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn seiliedig i raddau helaeth ar y maes pwnc ond mae'n ddisgrifiadol.* |
| B2U | 8 | Cyfrif disgrifiadol / naratifol o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â'r thema yw'r ymateb yn bennaf. Bydd barn yn cael ei hatodi. |
| B2S | 6 | *Mae'r ymateb yn cael ei gyfyngu i gyfrif disgrifiadol / naratifol o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â'r thema, heb roi cynnig ar farn.* |
| **Band 1 NODWEDDION** | | *Mae'r ymateb yn gyfyngiedig iawn, heb ei ddatblygu, yn gryno iawn neu'n amherthnasol yn bennaf.* |
| B1U | 5 | Mae'r ymateb yn gyfyngedig iawn a heb ei ddatblygu er bod rhyw gysylltiad gwan â'r thema gysylltiedig. |
| B1S | 3 | Mae'r ymateb yn gryno iawn a / neu'n amherthnasol yn bennaf. |
| | 0 | I'w ddefnyddio ar gyfer atebion anghywir. |

© Hawlfraint y Goron 2018 